

Fframwaith Cymhwysedd

Aelod o Dribiwnlys y Gymraeg sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith ac sy'n derbyn ffi

Ynghylch y fframwaith cymhwysedd

Mae'r fframwaith cymhwyseddau yn rhestru ffyrdd y gallai Aelod o Dribiwnlys y Gymraeg sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith ac sy'n derbyn ffi, sy'n gweithio'n effeithiol, arddangos pob un o'r pum maes cymhwysedd.

Mae'r fframwaith hwn yn gyson â fframwaith Sgiliau a Galluoedd Barnwrol a ddefnyddir gan Farnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd, a'r Coleg Barnwrol i sicrhau y caiff deiliaid swyddi eu hasesu gan yr un mesurau ym mhob cam o'u gyrfa.

Wrth ystyried eich cais a chymryd rhan yn y broses ddethol, meddylwch ym mha fodd y mae eich profiad yn un y gellir ei drosglwyddo i'r cymhwyseddau a restrir isod. Dylai pob enghraifft a roddir gennych fod yn berthnasol i faes cymhwysedd penodol. Does dim rhaid i chi roi sylw i bob pwynt bwled yn eich enghraifft neu enghreifftiau, ond dylech geisio mynd i'r afael â'r maes cymhwysedd yn ei gyfanrwydd, fel y mynegir ef yn y disgrifiad sydd dan bob teitl.

Dangos Crebwyll

Yn dangos didwylledd ac annibyniaeth barn i wneud penderfyniadau llym, teg a doeth

- Yn cymhwyso'n gywir yr arferion, y ddeddfwriaeth a'r weithdrefn berthnasol i ffeithiau a chyflwyniadau
- Yn dangos meddwl annibynnol
- Yn cynnal safon uchel o ran gwneud penderfyniadau annibynnol
- Yn sicrhau tegwch; yn dangos didwylledd ac yn gweithredu heb ogwydd na rhagfarn
- Yn dangos ymwybyddiaeth o achosion gwrthdaro buddiannau posibl ac yn cymryd camau priodol i'w hosgoi

Meddu ar Wybodaeth ac Adeiladu Arni

Yn meddu ar wybodaeth fanwl o awdurdodaeth berthnasol, cyfreithiau ac arferion. Yn dangos gallu a pharodrwydd i ddysgu a datblygu'n broffesiynol, gan annog eraill i wneud hynny hefyd

- Yn dangos gwybodaeth eang o'r gyfraith berthnasol a'r egwyddorion a'r gweithdrefnau sy'n sail iddi
- Yn dangos gallu sylweddol i gaffael gwybodaeth yn gyflym yn enwedig ynghylch materion anghyfarwydd neu hynod gymhleth
- Yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf yn y gyfraith, prosesau a gweithdrefnau newydd y tribiwnlys
- Yn ymgymryd â dysgu parhaus a datblygiad proffesiynol ac yn cynorthwyo eraill i wneud hynny, gan rannu gwybodaeth yn rheolaidd

Cymhathu ac Egluro Gwybodaeth

Yn cymhathu gwybodaeth yn gyflym i ganfod materion hanfodol, yn datblygu dealltwriaeth glir ac yn taflu goleuni lle bo ansicrwydd pryd bynnag y bo angen

- Yn cymhathu a phrosesu swmp mawr o wybodaeth gymhleth o ffynonellau niferus, a hynny'n effeithlon
- Yn canfod y materion perthnasol ac yn sicrhau bod y ffocws yn parhau arnynt
- Yn pwyso a mesur deunydd yn deg er mwyn cyrraedd penderfyniad wedi'i resymu
- Yn canfod bylchau mewn gwybodaeth a dulliau priodol ar gyfer cael manylion pellach

Fframwaith Cymhwysedd
**Aelod o Dribiwnlys y Gymraeg sydd wedi
ymgymhwyso yn y gyfraith ac sy'n derbyn ffi**

Gweithio a Chyfathrebu gydag Eraill

(Mae 'Eraill' yn cynnwys aelodau'r tribiwnlys a'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder, yn ogystal â holl ddefnyddwyr y tribiwnlys)

Yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn dangos empathi a sensitifrwydd tuag at wahanol anghenion unigolion. Yn dangos sgiliau cyfathrebu da ac yn datblygu perthnasoedd gwaith da gyda phawb

- Yn gefnogol i gydweithwyr ac yn agored i'w cyfraniadau
- Yn mabwysiadu arddull cyfathrebu clir a chryno, yn ysgrifenedig ac ar lafar, sy'n sicrhau bod eraill yn ei ddeall
- Yn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn modd sy'n sicrhau dealltwriaeth gan eraill
- Yn gwrando'n astud ac yn ceisio eglurder i sicrhau bod pob parti yn cael cyfle teg i gyflwyno ei achos

Rheoli Gwaith yn Effeithlon

Yn gweithio ac yn cynllunio'n effeithlon i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu system Farnwrol effeithiol

- Yn rheoli amser ac yn blaenoriaethu tasgau a rhwymedigaethau i sicrhau bod y llwyth gwaith yn cael ei gwblhau'n effeithlon
- Yn datrys problemau'n annibynnol ond yn ceisio cyngor ac yn cynnig cymorth i eraill lle bo'n briodol
- Yn dangos gwytnwch, gan ymateb yn dawel ac yn hyblyg i amgylchiadau sy'n newid a sefyllfaoedd o fod dan bwysau mawr
- Yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys gwneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf a chrosawu arloesedd